12 Diwrnod y Nadolig 2022 - Enillydd 1af

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Minis a Juniors
# Clwb Rygbi Glynrhedynog

Mae chwaraewyr wedi bod yn heidio at Minis a Juniors Clwb Rygbi Glynrhedynog y tymor yma! Maen nhw'n credu bod hyn o ganlyniad i'w cysondeb â'u hyfforddiant rheolaidd, eu hyfforddwyr angerddol a'u henw da am blant sy'n ymddwyn yn dda.

Nod y clwb yw sicrhau eu bod nhw'n gwneud pob dim maen nhw'n gallu i gynnig gweithgaredd allgyrsiol diogel, hwyl a chyson ar gyfer plant. Maen nhw hefyd yn gweithio'n galed er mwyn bod yn llawer mwy na chlwb chwaraeon yn unig. Maen nhw'n deulu, sy'n cefnogi eu cymuned ar y cae ac oddi arno! Yn ystod gemau rhyngwladol yr hydref fe drefnon nhw daith i Stadiwm y Principality, sef y cyfle cyntaf i nifer o'r plant weld Cymru'n chwarae.

Gyda theuluoedd yn ei chael hi'n anodd yn ariannol o ganlyniad i'r argyfwng costau byw presennol, mae'r clwb wedi darparu cit a bagiau am ddim i chwaraewyr y tymor yma. Mae'r clwb hefyd yn cynnal cynllun ailgylchu esgidiau rygbi, sy'n boblogaidd iawn am ei fod yn helpu i leihau cost chwaraeon i deuluoedd.

